



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1663 (Cy. 215)

2015 No. 1663 (W. 215)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Prynu Tybaco,
Cynhyrchion Nicotin etc. drwy
Ddirprwy (Hysbysiad Cosb
Benodedig) (Cymru) 2015

The Proxy Purchasing of Tobacco,
Nicotine Products etc. (Fixed
Penalty Notice) (Wales)
Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan Atodlen 1 i Ddeddf Iechyd 2006, yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau o dan adran 91(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

These Regulations, made under Schedule 1 to the Health Act 2006, contain provisions which relate to offences under section 91(1) of the Children and Families Act 2014.

Mae rheoliad 2 yn darparu bod modd defnyddio'r ffurflen Hysbysiad Cosb yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn pan honnir bod oedolyn wedi cyflawni'r drosedd o brynu tybaco, papurau sigarêts neu gynnyrch nicotin perthnasol ar ran person o dan 18 oed.

Regulation 2 provides that the Penalty Notice form in the Schedule to these Regulations can be used where an adult is alleged to have committed the offence of purchasing tobacco, cigarette papers or a relevant nicotine product on behalf of a person under the age of 18.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2015 Rhif 1663 (Cy. 215)

2015 No. 1663 (W. 215)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Prynu Tybaco,
Cynhyrchion Nicotin etc. drwy
Ddirprwy (Hysbysiad Cosb
Benodedig) (Cymru) 2015

The Proxy Purchasing of Tobacco,
Nicotine Products etc. (Fixed
Penalty Notice) (Wales)
Regulations 2015

Gwnaed 4 Medi 2015

Made 4 September 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 10 Medi 2015

*Laid before the National Assembly for
Wales* 10 September 2015

Yn dod i rym 1 Hydref 2015

Coming into force 1 October 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Iechyd 2006(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred upon them by paragraph 4 of Schedule 1 to the Health Act 2006(1), make the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tybaco, Cynhyrchion Nicotin etc. drwy Ddirprwy (Hysbysiad Cosb Benodedig) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 1 Hydref 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Proxy Purchasing of Tobacco, Nicotine Products etc. (Fixed Penalty Notice) (Wales) Regulations 2015 and they come into force on 1 October 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 2006 p. 28. Am ystyr "the appropriate national authority" gweler adran 82(1) o Ddeddf Iechyd 2006 ("Deddf 2006"). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau'r "appropriate national authority" o ran Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2006 yn gymwys gydag addasiadau i drosedd o dan adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ("Deddf 2014") yn rhinwedd adran 91(5) o Ddeddf 2014. Estynnwyd adran 91 o Ddeddf 2014 i gynnwys cynhyrchion nicotin perthnasol gan reoliad 2 o O.S. 2015/895.

(1) 2006 c.28. As to the meaning of "the appropriate national authority" see section 82(1) of the Health Act 2006 ("the 2006 Act"). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) the functions of "the appropriate national authority" in relation to Wales are exercisable by the Welsh Ministers. Schedule 1 to the 2006 Act applies with modifications to an offence under section 91 of the Children and Families Act 2014 ("the 2014 Act") by virtue of section 91(5) of the 2014 Act. Section 91 of the 2014 Act was extended to include relevant nicotine products by regulation 2 of S.I. 2015/895.

Ffurflen hysbysiad cosb benodedig

2.—(1) Mae'r ffurflen hysbysiad cosb yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi ei phennu mewn perthynas â'r drosedd o brynu neu geisio prynu tybaco, papurau sigarêts neu gynnyrch nicotin perthnasol ar ran unigolyn o dan 18 oed o dan adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014(1).

(2) Caiff awdurdod pwysau a mesurau lleol ddefnyddio ffurflen hysbysiad cosb o faint neu ddyluniad sy'n wahanol i'r ffurflen yn yr Atodlen, ar yr amod nad yw cynnwys y ffurflen hysbysiad cosb yn cael ei newid o'r hyn a bennir yn yr Atodlen ac eithrio fel y'i caniateir gan baragraff (3).

(3) Caiff awdurdod pwysau a mesurau lleol gynnwys mewn ffurflen hysbysiad cosb—

- (a) gwybodaeth neu enghreifftiau i gynorthwyo person y'i rhoddir iddo, er enghraifft o ran sut y gellir gwneud taliadau;
- (b) gwybodaeth neu enghreifftiau i'w gynorthwyo wrth gyflawni ei swyddogaethau gorfodi o dan adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, er enghraifft i'w gynorthwyo yn ei weithdrefnau gweinyddol neu i brosesu data;
- (c) arfbeisiau neu logos.

Form of fixed penalty notice

2.—(1) The penalty notice form set out in the Schedule to these Regulations is specified in relation to the offence of buying or attempting to buy tobacco, cigarette papers or a relevant nicotine product on behalf of an individual aged under 18 under section 91 of the Children and Families Act 2014(1).

(2) A local weights and measures authority may use a penalty notice form in a size or design which differs from the form specified in the Schedule, provided that the content of the penalty notice form is not changed from that specified in the Schedule except as permitted by paragraph (3).

(3) A local weights and measures authority may include in a penalty notice form—

- (a) information or examples to assist a person to whom it is given, for example on how payments can be made;
- (b) information or examples to assist it in the performance of its enforcement functions under section 91 of the Children and Families Act 2014, for example to assist in its administrative procedures or data processing;
- (c) coats of arms or logos.

Mark Drakeford

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

4 Medi 2015

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

4 September 2015

ATODLEN Rheoliad 2(1)

SCHEDULE Regulation 2(1)

[ENW'R AWDURDOD PWYSAU A MESURAU LLEOL]

[NAME OF LOCAL WEIGHTS AND MEASURES AUTHORITY]

[CYFEIRIAD YR AWDURDOD PWYSAU A MESURAU LLEOL]

[ADDRESS OF LOCAL WEIGHTS AND MEASURES AUTHORITY]

DEDDF PLANT A THEULUOEDD 2014:
ADRAN 91 (PRYNU TYBACO,
CYNHYRCHION NICOTIN ETC. AR RAN
PERSONAU O DAN 18 OED)

CHILDREN AND FAMILIES ACT 2014:
SECTION 91 (PURCHASE OF TOBACCO,
NICOTINE PRODUCTS ETC. ON BEHALF OF
PERSONS UNDER 18)

HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

FIXED PENALTY NOTICE

SWM Y GOSB: £90

PENALTY AMOUNT £90

RHAN 1

PART 1

COPI'R DERBYNNYDD

RECIPIENT COPY

Rhif yr hysbysiad o gosb

Penalty notice number

Enw llawn y troseddwr honedig

Full name of alleged offender

Cyfeiriad y troseddwr honedig

Address of alleged offender

Cod post

Post code

Dyddiad geni (os yw'n hysbys)

Date of birth (if known)

Rhyw

Sex

Gwryw

Male

Benyw

Female

Mae gennyf i,

I,

(*enw*), un o swyddogion awdurdodedig [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol], reswm i gredu eich bod wedi troseddu o dan adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (prynu neu geisio prynu tybaco, papurau

(*name*), an authorised officer of [name of local weights and measures authority] have reason to believe that you committed an offence under section 91 of the Children and Families Act 2014 (buying or attempting to buy

sigarêts neu gynnyrch nicotin perthnasol ar ran unigolyn o dan 18 oed) mewn ardal y mae gan [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol] gyfrifoldebau gorfodi ynddi.

tobacco, cigarette papers or a relevant nicotine product on behalf of an individual aged under 18) within an area in which [name of local weights and measures authority] has enforcement responsibilities.

Amgylchiadau'r drosedd honedig yw eich bod chi, am (*amser*)

The circumstances alleged to constitute the offence are that at (*time*)

ar (*dyddiad*)

on (*date*)

yn y man a ganlyn (*y lle y digwyddodd y drosedd honedig, gan gynnwys y cyfeiriad*):

you, in the following place (*where alleged offence took place, including address*):

, yn honedig, wedi (*manylion y drosedd*):

allegedly (*details of offence*):

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle ichi fodloni unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y drosedd hon drwy dalu cosb benodedig o **£90 (naw deg o bunnoedd)**. Ni chychwynnir achos am y drosedd hon cyn diwedd cyfnod o 29 diwrnod sy'n dechrau gyda (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*).

This notice offers you the opportunity of discharging any liability for conviction for that offence by payment of a fixed penalty of **£90 (ninety pounds)**. No proceedings will be taken for this offence before the expiration of 29 days beginning with (*date on which this notice is given*).

Ni fyddwch yn agored i'ch collfarnu am y drosedd os talwch y gosb benodedig o fewn y cyfnod hwnnw. Yn y Ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod o 29 diwrnod.

You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty within that period. In this Form this period is referred to as the 29 day period.

Cewch dalu swm gostyngedig o **£60 (chwe deg o bunnoedd)** os talwch o fewn y cyfnod o 15 diwrnod sy'n dechrau gyda (*y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn*)

You can pay a discounted amount of **£60 (sixty pounds)** if you pay within the period of 15 days beginning with (*date on which this notice is given*)

Os nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith, caniateir ichi dalu ar y diwrnod gwaith nesaf(1). Yn y Ffurflen hon, cyfeirir at y cyfnod hwn fel y cyfnod o 15 diwrnod.

If the 15th day is not a working day, you may pay on the next working day(2). In this Form this period is referred to as the 15 day period.

Mae Rhan 2 o'r hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth y dylid rhoi sylw iddi ar unwaith gan y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhoddir manylion am sut i dalu'r gosb benodedig yn Rhan 3 o'r hysbysiad hwn. Rhoddir manylion am sut i ofyn am wrandawriad llys ynglŷn â'r drosedd honedig hon yn Rhan 4 o'r hysbysiad hwn. **Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod yr hysbysiad hwn, cysylltwch â/ag [enw a chyfeiriad yr awdurdod pwysau a mesurau lleol ynghyd â'i fanylion cyswllt].**

Information for the immediate attention of the person who has been issued this penalty notice is at Part 2 of this notice. Details about how to pay this fixed penalty are at Part 3 of this notice. Details about how to request a court hearing in relation to this alleged offence are at Part 4 of this notice. **If you have any questions, or if you wish to discuss this notice, please contact [name and address of local weights and measures authority and contact details].**

Llofnod y swyddog awdurdodedig

Signature of authorised officer

Dyddiad dyroddi

Date of issue

(1) Ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Grogllith nac unrhyw ddiwrnod sy'n wyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

(2) "Working day" means any day which is not Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971.

RHAN 2

GWYBODAETH AR GYFER SYLW PRYDLON Y PERSON Y RHODDIR YR HYSBYSIAD HWN IDDO:

Rydych wedi cael yr hysbysiad hwn oherwydd bod gan swyddog awdurdodedig [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol] a enwir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn reswm i gredu eich bod wedi cyflawni'r drosedd o brynu neu geisio prynu tybaco, papurau sigaréts neu gynnyrch nicotin perthnasol ar ran unigolyn o dan 18 oed fel y'i disgrifir yn Rhan 1. **O fewn y cyfnod o 29 diwrnod a bennir yn Rhan 1, rhaid ichi naill ai dalu'r gosb neu ofyn am wrandawriad i'r mater gerbron llys. Ni chewch wneud y ddau beth.**

Os methwch â gwneud y naill beth neu'r llall, caiff [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol] ddwyn y mater gerbron llys. Mae person a geir yn euog o'r drosedd o brynu neu geisio prynu tybaco, papurau sigaréts neu gynnyrch nicotin perthnasol ar ran unigolyn o dan 18 oed yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

PART 2

INFORMATION FOR THE IMMEDIATE ATTENTION OF THE PERSON WHO HAS BEEN ISSUED WITH THIS NOTICE:

You have received this notice because the authorised officer of [name of local weights and measures authority] named in Part 1 of this notice has reason to believe that you have committed the offence of buying or attempting to buy tobacco, cigarette papers or a relevant nicotine product on behalf of an individual aged under 18 as described in Part 1. **Within the 29 day period specified in Part 1, you must either** pay the penalty or request that the matter be heard by a court. You may not do both.

If you fail to do either, [name of local weights and measures authority] may pursue this matter in court. A person found guilty of the offence of buying or attempting to buy tobacco, cigarette papers or a relevant nicotine product on behalf of an individual aged under 18 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

RHAN 3

TALU'R GOSB

Swm y gosb benodedig yw **£90 (naw deg o bunnoedd)**. Rhaid talu'r swm o fewn y cyfnod o 29 diwrnod a bennir yn Rhan 1.

Gallwch dalu swm gostyngol o **£60 (chwe deg o bunnoedd)** os byddwch yn talu o fewn y cyfnod o 15 diwrnod a bennir yn Rhan 1.

Os byddwch yn dewis talu'r gosb hon, ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r drosedd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn. Nid yw talu'r gosb yn golygu eich bod yn cyfaddef eich bod yn euog, ac ni fydd yn achosi cofnod o gollfarn droseddol yn eich erbyn.

Gellir talu drwy lenwi Rhan 3A isod a'i hanfon ynghyd â'r taliad i'r cyfeiriad a nodir yn y Rhan honno, neu drwy gwblhau Rhan 3A isod a thalu'n bersonol yn [enw a chyfeiriad yr awdurdod pwysau a mesurau lleol]. Mae'r dulliau talu derbyniol yn cynnwys arian parod, siec, archeb bost neu archeb arian, neu daliad ar-lein (pan fo ar gael).

Dylid gwneud sieciau, archebion post neu archebion arian yn daladwy i [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol]. [Gellir gwneud taliadau ar-lein ar [mewnosoder cyfeiriad y wefan]].

Os dewiswch dalu'r gosb hon gydag arian drwy'r post, rhaid ei anfon drwy bost cofrestredig, a rhaid cadw'r prawf o'r postio. Os oes arnoch angen derbynneb am dalu'r gosb, rhaid ichi ofyn am dderbynneb wrth dalu, ac os byddwch yn talu drwy'r post, rhaid ichi ddarparu amlen stampiedig wedi ei hunan-gyfeirio.

RHYBUDD: NI DDERBYNNIR TALIADAU SY'N CYRRAEDD YN HWYR. NI FYDDWN YN ANFON NODYN ATGOFFA ATOCH.

RHAN 3A

TALU COSB BENODEDIG A DDYRODDIR O DAN ADRAN 91 O DDEDDF PLANT A THEULUOEDD 2014

(PRYNU TYBACO, CYNHYRCHION NICOTIN ETC. AR RAN PERSONAU O DAN 18 OED)

PART 3

PAYING THE PENALTY

The amount of the fixed penalty is **£90 (ninety pounds)**. It must be paid within the 29 day period which is specified in Part 1.

You can pay a discounted amount of **£60 (sixty pounds)** if you pay within the 15 day period which is specified in Part 1.

If you choose to pay this penalty, no further action will be taken in respect of the alleged offence described at Part 1 of this notice. The payment of the penalty involves no admission of guilt and will not result in a record of criminal conviction being made against you.

Payment may be made by completing Part 3A below and sending it with payment to the address stated in that Part, or by completing Part 3A below and paying in person at [name and address of local weights and measures authority]. Acceptable methods of payment include cash, cheque, postal order or money order, or online payment (where available).

Cheques, postal orders or money orders should be made payable to [name of local weights and measures authority]. [Online payments [can be made at [insert website address]]].

If you choose to pay this penalty in cash by post, this must be sent by registered post, and proof of posting must be retained. If you require a receipt for the payment of the penalty, you must ask for one at the time of payment, and if paying by post, you must provide a stamped, self-addressed envelope.

WARNING: LATE PAYMENT WILL NOT BE ACCEPTED. YOU WILL NOT BE SENT A REMINDER.

PART 3A

PAYMENT OF FIXED PENALTY ISSUED UNDER SECTION 91 OF THE CHILDREN AND FAMILIES ACT 2014

(PURCHASE OF TOBACCO, NICOTINE PRODUCTS ETC. ON BEHALF OF PERSONS UNDER 18)

Rhaid anfon y slip hwn gyda phob taliad

This slip must accompany all payments

At

[enw a chyfeiriad yr awdurdod
pwysau a mesurau lleol y dylid
anfon y taliad ato]

Rhif yr hysbysiad o gosb

To

[name and address of local
weights and measures authority
where payment should be sent]

Penalty notice number

Yr wyf yn amgáu'r swm o
(*ticiwch un blwch*)
(os gwneir y taliad o fewn y
cyfnod o 15 diwrnod a bennir yn
Rhan 1)
(os gwneir y taliad o fewn y
cyfnod o 29 diwrnod a bennir yn
Rhan 1)

£60

£90

I enclose the amount of (*tick one
box*)

(if the payment is made within the
15 day period specified in Part 1)

(if the payment is made within the
29 day period specified in Part 1)

Enw llawn y troseddwr honedig

Full name of alleged offender

Cyfeiriad y troseddwr honedig

Address of alleged offender

Cod post

Post code

Llofnod

Signature

Dyddiad

Date

RHAN 4
GOFYN AM WRANDAWIAD LLYS

PART 4
REQUESTING A COURT HEARING

Os ydych yn dewis gofyn am wrandawriad llys, **rhaid** gwneud hynny o fewn y cyfnod o 29 diwrnod drwy lenwi Rhan 4A a'i hanfon at [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol], neu drwy ysgrifennu at [enw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol] yn y cyfeiriad a nodir yn Rhan 4A, gan roi eich manylion, rhif yr hysbysiad cosb (sydd i'w gael yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn) a'r cyfeiriad lle y gellir cyflwyno gwŷs i chi. Bydd y wŷs yn dweud wrthyech ym mhle a pha bryd i fod yn bresennol yn y llys. Dim ond derbynnydd yr hysbysiad hwn (sef y person a enwir yn Rhan 1) gaiff ofyn am wrandawriad llys.

If you choose to request a court hearing, you **must** do so within the 29 day period by completing Part 4A and sending it to [name of local weights and measures authority], or by writing to [name of local weights and measures authority] at the address stated in Part 4A, giving your details, the penalty notice number (which can be found in Part 1 of this notice) and an address at which a summons can be served on you. The summons will tell you when and where to attend court. Only the recipient of this notice (the person named at Part 1) may request a court hearing.

RHAN 4A
DEDF PLANT A THEULUOEDD 2014:
ADRAN 91 (PRYNU TYBACO,
CYNYRCHION NICOTIN ETC. AR RAN
PERSONAU O DAN 18 OED)

PART 4A
CHILDREN AND FAMILIES ACT 2014:
SECTION 91 (PURCHASE OF TOBACCO,
NICOTINE PRODUCTS ETC. ON BEHALF OF
PERSONS UNDER 18)

CAIS AM I LYS BARN YMDRIN Â'R
DROSEDD HONEDIG

REQUEST FOR ALLEGED OFFENCE TO BE
DEALT WITH BY A COURT OF LAW

At
[enw a chyfeiriad yr awdurdod
pwysau a mesurau lleol y dylid
anfon rhan 4A ato]

To
[name and address of local
weights and measures authority
where part 4A should be sent]

Rhif yr hysbysiad o gosb

Penalty notice number

Rwyf yn dymuno i lys barn ddelio â mi ynglŷn â'r
drosedd honedig.

I wish to be dealt with by a court of law for the
alleged offence.

Enw llawn y troseddwr honedig

Full name of alleged offender

Cyfeiriad y troseddwr honedig

Address of alleged offender

Cod post

Post code

Llofnod

Signature

Dyddiad

Date

©[©]Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1663 (Cy. 215)

2015 No. 1663 (W. 215)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Prynu Tybaco,
Cynhyrchion Nicotin etc. drwy
Ddirprwy (Hysbysiad Cosb
Benodedig) (Cymru) 2015

The Proxy Purchasing of Tobacco,
Nicotine Products etc. (Fixed
Penalty Notice) (Wales)
Regulations 2015

£6.00

W2416/09/15

ON

ISBN 978-0-348-11151-4



9 780348 111514